Craffu

yn Sir Gaerfyrddin

Pwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

Adroddiad Adolygiad Gorchwyl a Gorffen 2017/18

Adolygiad o'r gwasanaeth cynnal a chadw perthi ac ymylon priffyrdd



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

www.carmarthenshire.gov.uk

Cynnwys

	Adran	*Tudalen*
	Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen	3
	Rhagair y Cadeirydd	4
1.0	**Yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen**	**5**
1.1	Amcanion a Chwmpas	5
1.2	Amcanion corfforaethol / cymunedol ac amcanion llesiant	5
1.3	Dull	6
2.0	**Prif Ganfyddiadau**	**7**
2.1	Yr Amgylchedd	7
2.2	Arfer Presennol ar gyfer Ffyrdd Gwledig	8
2.3	Arfer Presennol ar gyfer Ffyrdd Trefol	9
2.4	Ffiniau a Chyfrifoldebau Priffyrdd	9
2.5	Cyllideb	11
2.6	Adnoddau	12
2.7	Sbwriel a Glanhau	13
2.8	Draeniad	14
2.9	Cadwraeth a Bioamrywiaeth	14
2.10	Ymylon toriad hwyr	16
2.11	Pryderon y cyhoedd	17
3.0	**Casgliadau**	**17**
4.0	**Argymhellion**	**19**
5.0	**Llyfryddiaeth/Cyfeiriadau**	**20**
6.0	**Atodiadau**	**20**

Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen

 Cyng. John James (Cadeirydd) Porth Tywyn Llafur	 **Cyng. Alun Davies** Saron Plaid Cymru	 **Cyng. Andrew James** Llangadog Plaid Cymru
 Cyng. Penny Edwards Hengoed Llafur	 **Cyng. Jeanette Gilasbey** Cydweli Plaid Cymru	 **Cyng. Dorian Phillips** Llanboidy Plaid Cymru

Rhagair y Cadeirydd

Rwyf yn falch o gyflwyno adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fu'n adolygu'r gwasanaeth cynnal a chadw perthi ac ymylon priffyrdd.

Rydym yn ffodus i gael ein hamgylchynu gan gymaint o harddwch naturiol yma yn Sir Gaerfyrddin, ond mae diogelwch yn hollbwysig ac mae'n rhaid cynnal a chadw a rheoli twf ein hymylon trwy ddarparu gwasanaeth effeithlon ac amserol.

Rhoddodd yr adolygiad gyfle inni aelodau'r grŵp ddysgu mwy am y gwasanaeth cynnal a chadw ymylon, pwy sy'n gyfrifol, amseru, cadwraeth a materion eraill sy'n effeithio ar ein cyllidebau a'n hadnoddau. Mater o bwys arbennig oedd y cyfle i ystyried y ddeddfwriaeth a'r polisïau sy'n effeithio ar reolaeth traffig, cadwraeth a glanhau, y galw i gynnal a chadw perthi ac ymylon ynghyd â glanhau sbwriel o gerbyd ffyrdd.

Yn ystod yr adolygiad roedd yn amlwg fod y ffordd y caiff ymylon priffyrdd eu cynnal a chadw yn groes i'r canfyddiad cyffredin; nid y Cyngor sy'n gyfrifol am bob perth a llain ac nid oes gan y Cyngor ddyletswydd i wneud i ymylon edrych yn ddeniadol. Roedd felly'n bwysig inni fel Grŵp ein bod yn deall y rhesymwaith presennol dros y drefn gynnal a chadw a rheoli canfyddiad y cyhoedd drwy addysg.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i swyddogion o'r Is-adrannau Priffyrdd, Gwastraff a Chadwraeth o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd am eu cyngor a'u cefnogaeth, ynghyd ag aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen am eu cyfraniad i'r adolygiad.

Cyng. John James
Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

1.0 Yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen

1.1 Amcanion a Chwmpas

Mae gan y Pwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd rôl allweddol i'w chwarae yn monitro gwasanaethau, datblygiad polisïau a strategaethau allweddol, ynghyd ag adnabod meysydd i'w gwella neu ddatblygu.

Yn ei gyfarfod ar yr 17eg Tachwedd 2017, cytunodd Pwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r gwasanaeth cynnal a chadw presennol perthi ac ymylon priffyrdd.

Yn dilyn ei gyfarfod cyntaf, cytunodd y Grŵp mai ei brif amcanion ar gyfer yr adolygiad fyddai:

- Adolygu'r gwasanaeth cynnal a chadw presennol ar gyfer perthi ac ymylon priffyrdd ac os yn briodol gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r gwasanaeth.

Cytunodd y Grŵp y byddai prif nodau'r adolygiad yn cynnwys:

- Y ddarpariaeth a'r rhaglen gynnal a chadw bresennol ar gyfer ffyrdd y Sir, gan gynnwys natur, amseriad a'r offer a ddefnyddir ar gyfer toriadau.
- Gwybodaeth am y ddarpariaeth a'r rhaglen gynnal a chadw bresennol ar gyfer cefnffyrdd.
- Y cydbwysedd rhwng gwasanaethau mewnol ac allanol a threfniadau caffael y gwasanaethau hynny.
- Nifer y staff sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Sawl gwaith y caiff perthi ac ymylon ffyrdd eu torri, gan roi sylw arbennig i berthi o gwmpas cyffyrdd.
- Faint o alwadau mae'r Cyngor yn eu derbyn am y mater hwn a cheisiadau am wasanaethau a'r broses ar gyfer delio â cheisiadau torri perthi gan y cyhoedd, i gynnwys ceisiadau i dorri ac i beidio â thorri.
- Dyraniad y gyllideb ac effaith unrhyw newidiadau ar y ddarpariaeth.
- Ystyried cyfrifoldebau perchnogion tir a grymoedd gorfodaeth y Cyngor.
- Ystyried yr effaith amgylcheddol gan gynnwys bioamrywiaeth.

1.2 Amcanion corfforaethol / cymunedol ac amcanion llesiant

Cytunodd y Grŵp y byddai'r adolygiad hwn yn cyfrannu at sicrhau'r amcanion a deilliannau corfforaethol / cymunedol ac amcanion llesiant canlynol:-

Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor Sir 2015-20:

- Mae pobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â Sir Gaerfyrddin yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel.
- Mae cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
- Mae gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy ffyniannus

Byddai deilliannau'r adolygiad hwn hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol ag amcanion Llesiant canlynol Cyngor Sir Caerfyrddin:

Mewn Amgylchedd Iach a Diogel:-

- Amcan 12 -
  Gofalu am yr amgylchedd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol
- Amcan 13 -
  Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

1.3 Dull

Roedd aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:

- Cyng. John James (Cadeirydd)
- Cyng. Alun Davies
- Cyng. Andrew James
- Cyng. Penny Edwards
- Cyng. Jeanette Gilasbey
- Cyng. Dorian Phillips

Darparodd yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn Adran y Prif Weithredwr ymchwil a chefnogaeth gyffredinol i'r Grŵp.

Darparodd y swyddogion canlynol gyngor a chefnogaeth arbenigol yn ystod adolygiad y Grŵp:

- Richard Waters, Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth
- Darren King, Rheolwr y Gwasanaethau Priffyrdd
- Dan John, Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol
- Nicolas French, Rheolwr Tiroedd a Glanhau
- Isabel Macho, Swyddog Bioamrywiaeth
- Rosie Carmichael, Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad

Y bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r adolygiad mewn 4 cyfarfod rhwng Ionawr 2018 ac Ebrill 2018. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn derbyniwyd ceisiadau/atgyfeiriadau ychwanegol, gan ymestyn cyfnod yr adolygiad i 8 cyfarfod hyd at fis Tachwedd 2018 (gweler Atodiad A). Bu'r Grŵp yn ystyried tystiolaeth a gwybodaeth o sawl ffynhonnell. Trefnwyd fod pob sesiwn yn rhoi i'r Grŵp y wybodaeth, cyd-destun a chefndir perthnasol ar gyfer y mater dan sylw.

Fel rhan o'r ymchwil, holodd y grŵp gorchwyl y contractwyr lleol canlynol i gasglu eu barn ar eu profiad o fod yn gontractiwr lleol ac o'r broses dendro.

1. Mr Brian Jones, Llangadog;
2. Mr Danny Williams, Llanymddyfri;
3. Mr Elwyn Davies, Llangadog.

2.0 Prif Ganfyddiadau

2.1 Yr Amgylchedd

Yn Sir Gaerfyrddin y mae'r rhwydwaith priffyrdd ail hiraf yng Nghymru yn cwmpasu dros 3,500km o ffyrdd ac yn darparu cysylltiadau hollbwysig rhwng trefi, cymunedau a busnesau. Mae llawer o'n rhwydwaith priffyrdd yn wledig ac mae'n rhan allweddol o'n tirlun gwledig.

Yn gyffredinol ceir lleiniau glas ar ochr ein ffyrdd gwledig, ac yn amlach na pheidio ceir perthi ar naill ochr y ffordd.

Fel yr Awdurdod Priffyrdd, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli'r ffyrdd hyn a'r ardaloedd sydd o fewn ffin y briffordd. Gofalwn hefyd nad yw nodweddion nad ydynt o fewn ffin y briffordd yn creu risg i'r cyhoedd wrth iddynt deithio ac mae gennym rymoedd statudol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i ddiogelu'r cyhoedd wrth iddynt deithio a'u hawl mynediad.

Mae rhan o'n dyletswydd yn cynnwys cynnal a chadw ymylon ein ffyrdd, ac mae gennym raglen gynnal a chadw ar gyfer hyn. Ein prif nod yn y gwaith cynnal a chadw hwn yw gofalu:

a) Y cynhelir diogelwch y ffordd, sy'n cynnwys yn benodol sicrhau blaen weledd ar gyffyrdd ac ar droeon;

b) Fod gan gerddwyr y cyfle i gamu'n ddiogel oddi ar y ffordd i'r llain pan nad oes unrhyw lwybrau troed;

c) Nad yw rhywogaethau di-eisiau yn ymsefydlu ar y llain;

d) Nad yw llystyfiant yn rhwystr i'r cyhoedd wrth iddynt deithio, sy'n gallu bod yn fater o bwys arbennig ar y lonydd gwledig culach ac ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Bu cyllidebau priffyrdd dan bwysau, fel holl gyllidebau'r sector cyhoeddus, ac mae angen cynyddol i edrych ar sut ellir cyflawni nodau tra'n cynnig gwerth gorau am arian ar yr un pryd.

Mae ystyriaethau amgylcheddol hefyd yn ffactor allweddol o ran sut mae ffyrdd gwledig yn cael eu rheoli, a gwneir hyn trwy weithio'n agos gyda chydweithwyr cadwraeth i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i gynnal a chryfhau bioamrywiaeth ar ymylon ffyrdd.

Rydym hefyd yn gweithio gyda pherchnogion tir cyfagos i sicrhau yr ymdrinnir â phob mater sy'n cael effaith ar y briffordd a hawl mynediad y cyhoedd mewn ffordd resymol.

2.2 Arfer Presennol ar gyfer Ffyrdd Gwledig

Mae'r rhaglen gynnal a chadw bresennol ar ymylon ffyrdd gwledig yn sicrhau y gwneir un toriad amrwym, sy'n 1 metr o led, o leiaf unwaith y flwyddyn. At ddibenion diogelwch caiff hynny ei gynyddu fel arfer ar droeon i sicrhau blaen welededd, ac ar gyffyrdd lle y caiff lleiniau gwelededd lletach eu torri. Os oes angen, gellir torri troeon a chyffyrdd fwy nag unwaith y flwyddyn.

Mae amseriad torri'r ymylon yn allweddol bwysig a chaiff twf llystyfiant ei fonitro'n agos er mwyn torri ar yr adeg orau. Yn gyffredinol mae'r rhaglen dorri yn rhedeg o ddechrau Mehefin tan ddiwedd Medi. Bydd unrhyw rannau o ymylon sy'n cynnwys blodau gwyllt yn cael eu gadael heb eu torri nes iddynt flodeuo ac nes i'r hadau gael eu bwrw, ac mae'r union ddyddiad yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.

Mae torri rhwydwaith mor helaeth yn ddrud a chaiff gryn effaith ar y gyllideb. Os yw'r ymylon yn cael eu torri'n rhy gynnar yn y tymor efallai y bydd angen ail doriad. Os yw'r ymylon yn cael eu torri'n rhy hwyr gall hynny effeithio ar welededd yn arbennig.

Caiff yr ymylon eu torri gan dractor a pheiriant ffustio er mwyn gadael gwair ar uchder sefyll o ddim mwy na 50mm. Ar y ffyrdd sy'n creu risg uwch mae rheolaeth traffig hefyd yn ystyriaeth ac efallai y bydd angen technegau fel 'Atal a Mynd' er mwyn gwneud y gwaith yn ddiogel.

Mae chwyn ymledol anfrodorol, fel Clymog Japan, Efwr Enfawr a Jac y Neidiwr ar ymylon priffyrdd yn cael eu trin trwy raglen chwistrellu gylchynol reolaidd, ac mae'r driniaeth yn parhau hyd nes y gwaredwyd y llystyfiant sy'n peri problem. Mae rhywogaeth o'r fath sy'n

tyfu ar dir preifat yn gyfrifoldeb perchennog y tir ac mae rhagor o arweiniad ar hyn ar gael ar wefan y Cyngor Sir.

2.3 Arfer Presennol ar gyfer Ffyrdd Trefol

Mae'r drefn ar gyfer rheoli ymylon mewn ardaloedd trefol yn amlwg wahanol i'r un ar gyfer ffyrdd gwledig o ran nodau'r gwasanaeth a'r fethodoleg ar gyfer cynnal a chadw. Yn hanesyddol, un o'r prif ffactorau wrth gynnal a chadw ymylon trefol oedd gwerth esthetaidd darnau o wair wedi'u torri'n daclus. O safbwynt priffordd gweithredol mae ein prif nodau yn seiliedig ar ddiogelwch a mynediad yn hytrach na'r gwerth amwynderol allai ddeillio o'r gwaith.

Gan amlaf caiff ymylon yn yr ardaloedd trefol eu torri gan beiriannau torri gwair wrth eistedd ac mae'r gofynion rheoli traffig yn llai beichus.

2.4 Ffiniau a Chyfrifoldebau Priffyrdd

Ceir yn aml ddiffyg eglurder o ran hyd a lled ffin y briffordd a'r cyfrifoldebau ar gyfer ardaloedd o fewn ac yn gyfagos â'r ffin. Gwneir rhai rhagdybiaethau bras i gynnig peth eglurder yn hyn o beth, ond dylid cofio bob tro mai rhagdybiaethau yn unig ydynt ac efallai y bydd angen edrych ar bob sefyllfa'n unigol.

Y rhagdybiaethau cyffredinol a ddefnyddiwn yw bod ffin y briffordd yn ymestyn i:-

- linell ganol perth gyfagos
- ymyl y ffordd o ysgwydd ffos gyfagos
- bydd y berth a ffos yn eiddo i ac yn gyfrifoldeb perchennog tir cyfagos

Dangosir hyn isod yn y croestoriad o ffordd arferol.



Ni fydd awdurdodau priffyrdd fel arfer yn honni bod yn berchnogion ar dir dros ac oddi tan y briffordd. Yn aml efallai y bydd y perchennog tir cyfagos yn honni bod yn berchen y tir hyd at linell ganol y briffordd, ond mae hawliau priffordd gor-redol dros y tir sy'n cael blaenoriaeth, ac mae gan yr awdurdod priffyrdd ddyletswydd o ran cynnal a diogelu hawliau o'r fath. Bernir mai dyfnder y briffordd yw'r hyn sydd ei angen at ddibenion priffyrdd.

Yn yr ardaloedd trefol mae hyd a lled y briffordd yn tueddu bod yn gliriach, ond yn yr ardaloedd gwledig nid yw'r ffin mor amlwg bob tro. Yn seiledig ar y rhagdybiaethau uchod mae'r darlun isod yn cynnig darlun o pwy yn gyffredinol sy'n gyfrifol am ba ran o'r briffordd a phwy sydd fel arfer yn gyfrifol am gynnal a chadw'r ymylon, y perthi a'r draeniad.



(ffynhonnell Cyngor Sir Swydd Stafford)

Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn teimlo nad oedd y cyhoedd yn gyffredinol yn ymwybodol o bwy oedd yn gyfrifol am y cynnal a chadw, a'r canfyddiad oedd mai'r Cyngor oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r holl rannau, gan gynnwys perthi minffordd.

Yn bennaf, roedd y Grŵp yn cydnabod, pe bai canfyddiad y cyhoedd yn cael ei wella a phe bai perchnogion tir yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau, y gallai hynny gael effaith gadarnhaol ar yr Awdurdod gan y byddai'n arwain at lai o gwynion a llai o gost i'r Awdurdod gan na fyddai'n gorfod gweithredu cymaint ar faterion diogelwch perthi perchnogion tir.

Hefyd, mae'n bwysig pwysleisio mai'r Perchennog Tir fu'n gyfrifol am berthi minffordd cyfagos ers blynyddoedd lawer ac nad yw hynny wedi newid.

2.5 Cyllideb

O dan y trefniadau cyllidebol presennol, daw gwaith a wneir gan y Cyngor Sir er mwyn diogelu, cadw a gwella coed, ymylon a thirlunio priffyrdd allan o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd.

Mae pwysau cyson i gynnal safonau diogelwch ac effeithlonrwydd da sy'n cyrraedd disgwyliadau'r cyhoedd sy'n gosod pwysau ar y gwasanaeth i weithredu o fewn cyfyngiadau adnodd y mae'n rhaid eu rheoli.

Ar hyn o bryd mae un toriad llawn o ymylon priffyrdd gwledig yn costio tua £200k mewn costau contractwyr a £75k yng nghostau'r Cyngor Sir sy'n cynnwys darparu gwasanaethau rheoli traffig. Hefyd, gwneir toriadau diogelwch trwy drefniant ad hoc yn ôl y galw, ac mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyllideb gyfyngedig. Mae'r angen i amseru'n gywir y toriad ymylon wrth ymateb i'r cyfraddau twf a geir ymhob tymor yn rhoi pwysau ychwanegol ar swyddogion.

Am resymau diogelwch gor-redol mae'r Cyngor Sir weithiau'n gorfod torri perthi cyfagos sy'n gyfrifoldeb y perchennog tir cyfagos. Gwneir hyn fel arfer mewn ffordd adweithiol, ond mae cyfanswm y gost oddeutu £30k y flwyddyn.

Er mwyn helpu rheoli'r gyllideb, mae strategaethau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar sail risg, sy'n cyfeirio adnoddau ble mae eu hangen fwyaf.

Caiff cefnffyrdd eu rheoli trwy gontract ar wahân ac mae'r fanyleb yn cael ei theilwra ar gyfer ffyrdd risg uchel. Mae Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) yn gosod manylebau sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor trwy drefniant asiantaeth. Mae rôl y Cyngor yn cynnwys dyfarnu'r contract, goruchwyliaeth a rheolaeth. Caiff costau rheoli traffig eu hawlio'n ôl oddi wrth SWTRA.

Ceir contract ar wahân ar gyfer torri gwair amwynder. Mae'r ymarferiad tendro cystadleuol diweddar wedi arwain at dorri costau, a byddai hyn ynghyd â'r bwriad i dorri'n llai aml a rheolaeth ofalus yn lleddfu rhai o'r pwysau ar y gyllideb. Fodd bynnag, roedd y Grŵp yn cydnabod, wedi penderfynu gwneud llai o doriadau, y byddai unrhyw ostyngiadau pellach yn y gyllideb yn cael cryn effaith ar y gallu i barhau i ddarparu'r gwasanaeth.

Mae cymhariaeth gyda threfniadau torri ymylon awdurdodau eraill yn awgrymu fod y drefn yn Sir Gaerfyrddin yn ddigon tebyg i awdurdodau eraill, ond er bod rhai yn torri'n amlach mae llawer o awdurdodau wrthi'n adolygu eu rhaglenni cynnal a chadw.

Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod fod Awdurdodau Priffyrdd eraill yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i dorri gwair ar gyfer amwynder. Roedd y Grŵp yn cydnabod manteision cydweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac roedd yn awyddus iawn i Gyngor Sir Caerfyrddin ymrwymo i'r ffordd hon o weithio.

2.6 Adnoddau

Mae gan Sir Gaerfyrddin rwydwaith ffyrdd helaeth i'w reoli ac mae'n is-gontractio'r holl waith torri ymylon trwy broses tendro cystadleuol. Dyfarnwyd y contract presennol ym mis Ionawr 2017 (2 flynedd) ac mae dewis i'w ymestyn. Bwriedir hysbysebu'r tendr nesaf ar ddiwedd 2018 yn barod ar gyfer 2019 ac efallai trwy drefniant caffael ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro. Mae tendr yn cynnwys manyleb dorri, hyd y toriad a gofynion rheoli traffig.

Ychydig iawn o geisiadau a geir gan gontractwyr mewn rhai rhannau o Sir Gaerfyrddin, sy'n golygu nad oes fawr ddim cystadleuaeth na dewisiadau.

O ystyried natur eang y rhwydwaith ffyrdd gwledig, rhannwyd y Sir yn 20 ardal 'Rhawd'. Mae hynny'n gwneud yr ardaloedd yn fwy hylaw ac mae'n rhoi cyfle i gontractwyr lleol llai gynnig am y gwaith. Ceir map o'r rhawdau yn Atodiad B. Mae contractwyr yn tendro cyfradd ar sail mesurydd, a chytunwyd amodau amrywiol megis amserau torri, yswiriannau ac ati.

Roedd y Grŵp yn cydnabod fod contractwyr 'lleol' yn fwy gwybodus o ran amgylchiadau traffig lleol a'u bod yn tueddu cymryd balchder ychwanegol yn eu gwaith.

Mae disgwyl i gontractwyr dorri ar hyd dosbarthiadau gwahanol o ffyrdd, ac ar ôl cyfweld contractwyr cafodd y Grŵp neges glir na fyddai gyrwyr yn gyfforddus yn torri rhai prif ffyrdd heb i'r trefniadau rheoli traffig gael eu cryfhau. Mae is-ffyrdd yn yr ardaloedd mwy gwledig yn rhwyddach i'w gwneud yn annibynnol.

Er bod y tîm Priffyrdd yn adolygu'r rhaglen gynnal a chadw'n rheolaidd er mwyn blaenoriaethu adnoddau, roedd y Contractwyr yn credu fod anghysondeb o ran sut roedd y toriadau'n cael eu blaenoriaethu yn ystod y cyfnod torri 10-wythnos; ar ôl y toriadau diogelwch cyntaf er enghraifft, gellid defnyddio'r 5-6 wythnos cyntaf i dorri'r ffyrdd gwledig llai gan roi sylw arbennig i'r ardaloedd mwyaf poblogaidd ymhlith ymwelwyr.

Caiff y gwaith ei wneud gan gontractwyr sy'n cael eu goruchwylio gan dîm o 10 Arolygydd Priffyrdd sy'n gyfrifol am ddau Rawd yr un (Atodiad B). Mae Arolygwyr yn gyfrifol am fonitro'r contractiwr, cynnal hap archwiliadau, delio ag ymholiadau'r cyhoedd ac awdurdodi taliadau i is-gontractwyr.

Mae'r tabl isod yn cynnig y dosbarthiadau ffordd:-

Disgrifiad	Llythyren
Prif Ffyrdd	Ffyrdd A a B
Is-ffyrdd	Ffyrdd C a ffyrdd diddosbarth

Torri gwair

2.7 Sbwriel a glanhau

Mae Gwasanaeth Glanhau Strydoedd y Cyngor yn gyfrifol am lanhau ardaloedd priffordd a fabwysiadwyd ar draws y Sir a chael gwared â sbwriel a briodolwyd i dipio anghyfreithlon ar hyd tua 3,500 km o gerbyd ffyrdd ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin.

Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn gosod dyletswyddau o dan adran 89 ar yr Awdurdod Lleol sef y 'corff dan ddyletswydd' i gadw tir penodedig yn glir o sbwriel ac i gadw priffyrdd cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt yn lân.

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, a ddatblygwyd trwy Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac mae'n ceisio annog cyrff i gadw eu tir o fewn safonau glendid derbyniol. Rhoddir y pwyslais ar reoli ardal mewn ffordd gyson a phriodol er mwyn ei chadw'n lân, ac nid ar amlder y glanhau.

Mae'r codau'n nodi systemau graddedig a pharthau ac yn gosod amserau adennill penodol ar gyfer adfer y safonau a ddisgwylir.

Yn ystod gwaith glanhau rhaid i'r Cyngor ystyried y canlynol:-

- Rhaid gweithio yn unol â chanllawiau Iechyd a Diogelwch, Asesiadau Risg a Systemau Diogel er mwyn glanhau priffyrdd. Golyga hynny drefnu gofynion rheoli traffig priodol sy'n golygu y gellir codi sbwriel mewn amgylchedd diogel.

- Cysylltu â'r Is-adran Priffyrdd a chontractwyr allanol i ddarparu'r gwasanaeth Rheoli Traffig Estynedig sydd ar hyn o bryd yn costio tua £650 y dydd.

Mae'r cynnydd mewn problemau sbwriel yn deillio o safleoedd bwyd cyflym/gorsafoedd gwasanaethau yn rhoi straen gynyddol ar adnoddau ac yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd ar yr un pryd. Er mwyn gwella'r broblem sbwriel gyffredinol, mae'r Gwasanaeth Glanhau yn ceisio "Gwella Ansawdd yr Amgylchedd Lleol" trwy 'Addysg, Ymgysylltu a Gorfodaeth'.

- Gwneir defnydd helaeth o addysg ac ymwybyddiaeth yn Sir Gaerfyrdd er mwyn lleihau sbwriela ac fe gynhwysir hynny yn y gwaith a wneir gydag ysgolion a thrwy ddatblygu cynlluniau gwersi ar gyfer rheoli gwastraff

- Ymgysylltu gyda chyrff cymunedol a'r sector masnachol

- Mae gorfodaeth yn sail i'r dull hwn trwy Hysbysiadau Cosb Benodedig ac erlyniadau ar gyfer troseddau amgylcheddol

Mae gweithio ar y cyd yn creu prosesau effeithlon ac effeithiol a defnyddir hynny ar y pryd gan y timau Glanhau a Phriffyrdd wrth iddynt gydweithio pryd bynnag y gallant i drefnu codi sbwriel yn union cyn torri ymylon/gwaith adferol. Mae'r dull hwn o weithio yn arbennig o fuddiol ar ffyrdd deuol.

2.8 Draeniad

Mae draeniad da yn hanfodol i gadw priffordd mewn cyflwr da. Mae merddwr ar y briffordd yn gallu creu pryder o ran diogelwch ffordd, gall fod yn niwsans i ddefnyddwyr ffyrdd a gall gyflymu dirywiad ffabrig y gerbyd ffordd. Mewn ardaloedd trefol mae system o gafnau ffordd a phibau cario rhyng-gysylltiol yn bodoli'n aml. Mewn ardaloedd gwledig ceir mwy o ddibyniaeth yn aml ar ffosydd minffordd, sianeli a chysylltiadau i gyrsiau dŵr lleol i symud dŵr wyneb oddi ar y briffordd.

Fel arfer y perchennog tir cyfagos sy'n gyfrifol am ffosydd minffordd er y gall y briffordd ddraenio i mewn iddynt. Fel arfer bydd gan y perchennog tir cyfagos ddyletswydd cyfraith gyffredin i ofalu am y ffosydd hyn.

Y Cyngor Sir fydd yn gyfrifol am y sianeli trwy'r llain i mewn i'r ffos ac mae rhaglenni cynnal a chadw cylchol ar waith i sicrhau y cedwir y rhain mewn cyflwr derbyniol.

Dylai perchnogion tir cyfagos ofalu nad yw dŵr wyneb yn gollwng i'r briffordd, ac os yw draeniad y briffordd yn effeithio tir cyfagos dylid cysylltu ag Is-adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

2.9 Cadwraeth a Bioamrywiaeth

Mae gan berthi ac ymylon ffyrdd gryn werth tirluniol fel nodweddion esthetaidd a hanesyddol yn y tirlun. Maent yn cyfrannu at gymeriad y sir. Mae ymylon hefyd yn cynnal amrywiaeth cyfoethog ac amrywiol o gynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt o bob math, gan gynnig bwyd a chysgod ynghyd â chynefin twrio am fwyd pwysig i beillwyr. Yn rhyfedd, mae ymylon yn cynnwys 700 o rywogaethau a 45% o holl fflora y DU.[1] Maent yn goridorau bywyd gwyllt ar hyd a lled y sir.

Er mwyn cydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 trwy ei Dyletswydd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau Cydnerth a amlinellir yn adran 6 y Ddeddf, mae gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin fel corff cyhoeddus adolygu ei gynlluniau, polisïau a ffyrdd o weithio, ar draws pob cyfarwyddiaeth, i sicrhau ei fod yn cyflawni'r ddyletswydd newydd hon, sef gofalu am a chryfhau bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Mae Blaen-gynllun y Cyngor ar gyfer Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar gyfer 2017-2019 yn arddangos ymrwymiad i gadwraeth o ran torri ymylon ac o fewn y cynlluniau/polisïau trafnidiaeth a phriffyrdd yng nghamau gweithredu 6 a 7 yn y drefn honno.

Nododd y Grŵp fod ymylon ar hyd ffyrdd "newydd" yn tueddu i gael eu hadu a/neu yn adfywio'n naturiol, ond er y gall cymysgeddau hadau blodau gwyllt fod yn esthetaidd ddeniadol, dylid bod yn ofalus wrth eu defnyddio. Gall y cymysgeddau hadau hyn fod yn ddrud ac maent yn aml yn cynnwys hadau o flodau nad ydynt yn frodorol i'r ardal, na fyddant o reidrwydd yn ffynnu yma neu fydd yn cael effaith andwyol ar boblogaethau planhigion lleol. Yn yr amgylchedd gwledig byddai'n well gofalu am a chryfhau'r planhigion blodeuo brodorol sydd yno'n barod.

[1] Plantlife, The Good Verge Guide, A different approach to managing our waysides and verges

Fel yr Awdurdod Priffyrdd lleol, mae gan y Cyngor Sir gyfrifoldeb i sicrhau bod y gwaith cynnal a chadw ymylon priffyrdd yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol. Yn ogystal â sicrhau safonau diogelwch da, dywed Cod Ymarfer yr Adran Drafnidiaeth "…y dylid rheoli ymylon trwy ddefnyddio cyngor arbenigol, yn unol ag egwyddorion y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth i fodloni gofynion cyfreithiol, cefnogi cadwraeth ac ychwanegu gwerth i'r tirlun." [2]

Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Peillwyr (2013) yn cynnwys deilliant i ddarparu cynefinoedd llawn blodau amrywiol a chysylltiedig i gefnogi ein peillwyr. Dywed cam yn y cynllun: 'Adolygu trefniadau'r Cyngor Sir ar gyfer rheoli ymylon ffyrdd, parciau a llecynnau tir glas cyhoeddus'.
Mae'r Cyngor Sir, trwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn a gwaith arall, yn cyfrannu at y deilliant hwn.

Er bod gan y Cyngor ddyletswydd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth uchod a bod yn ymwybodol o'r polisi cenedlaethol, mae'n bwysig hefyd fod pob cyfrannwr yn ymwybodol ac ymrwymedig. Ar ddechrau'r tymor mae swyddogion priffyrdd a swyddogion cadwraeth yn gweithio'n agos gydag is-gontractwyr ac yn darparu taflenni gwybodaeth a mapiau. Ceir isod ddarn o Nodyn Cyngor Ecolegol 11 Cyngor Sir Caerfyrddin – Rheoli Ymylon Ffyrdd ar gyfer canllawiau diogelwch a bioamrywiaeth ar gyfer contractwyr a roddir i bob contractiwr ar ddechrau'r tymor. Atodir y ddogfen gyfan yn Atodiad C.



Carmarthenshire County Council
- ECOLOGICAL ADVICE NOTE 11

ROAD VERGES

MANAGING ROAD VERGES FOR SAFETY AND BIODIVERSITY
GUIDANCE FOR CONTRACTORS – PLEASE READ AND TAKE NOTE

? Please be mindful of the wildlife (biodiversity) value of roadside verges when cutting them and make sure that, where H&S allows, they are managed appropriately. This is consistent with the Council's duty to take positive steps to enhance biodiversity as set out in the Environment Act (Wales).

The way in which verges are cut will affect their value for wildlife (biodiversity), and positive steps can be taken to enhance this:

1. Start date of cutting and cutting plan.

- Start cutting as late as possible in the season, and if your beat covers low and high areas, cut the roads at lower altitude first, finishing with the roads verges on the higher land.
- Outside settlements, apart from junctions and bends, cut vegetation within one swathe width of the carriageway edge. NB. A uniform cut across the entire verge or hedgebank is not the objective – the vegetation that is left is a valuable habitat for wildlife and a valuable seed source.
- Where possible do not cut flowering plants, and plants which have yet to flower.

[2] R15.8 Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth – Cadw Priffyrdd mewn cyflwr da, Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli Cynnal a Chadw Priffyrdd

Mae Swyddogion Cadwraeth ynghyd â'r Swyddogion Priffyrdd a chontractwyr yn rhaglennu amseriad torri ymylon, ac mae hyn yn hollbwysig er mwyn galluogi blodau i dyfu i'r cyfnod peillio a galluogi blodau tal i gynnig cysgod i bryfed llai. Yn anorfod, oherwydd bod rhaid rheoli cymaint o ymylon, bob blwyddyn bydd rhai ymylon yn cael eu torri yn gynt nag a fyddai orau ar gyfer y planhigion blodeuo, ond y gobaith yw y bydd hyn yn unioni ei hun dros y blynyddoedd. Mae'r Adain Gadwraeth yn gweithio gyda Phriffyrdd i ystyried materion wrth iddynt godi.

2.10 Ymylon toriad hwyr

Ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin dewiswyd tua 70 o ymylon toriad hwyr i gael eu gadael heb eu torri'n fwriadol i gadw cynefinoedd llawn blodau a galluogi planhigion i flodeuo a bwrw hadau, ac fe gânt eu mapio a'u torri'n ddiweddarach yn y tymor.

Caiff ymylon toriad hwyr eu rheoli trwy gysylltu gyda chontractwyr i raglennu oedi cyn torri ymylon toriad hwyr penodol, gan sicrhau bod diogelwch yn hollbwysig. Ar ddechrau pob tymor torri mae pob contractiwr yn derbyn dogfen 'Rheoli Ymylon Ffyrdd ar gyfer Canllawiau Diogelwch a Bioamrywiaeth ar gyfer Contractwyr' a welir yn Atodiad C a fyddai'n cael ei lofnodi gan bob Contractiwr i gadarnhau y cafodd y canllawiau eu darllen a'u deall.

Awgrymir mai torri'r ymylon hyn yn fwriadol hwyr yw'r ffordd orau o reoli a hyrwyddo eu gwerth cadwraeth. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod fod angen monitro twf dilynol i weld faint o lwyddiant a gafwyd, penderfynu ar anghenion cynnal a chadw i'r dyfodol, cryfhau bioamrywiaeth a gwella canfyddiad cyhoeddus.

Er mwyn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth, roedd yr ymylon toriad hwyr wedi cael eu hadnabod ynghynt trwy ddefnyddio pyst ac arwyddion, ond yn anffodus roedd pyst wedi diflannu neu wedi cael eu difrodi gydag amser.

Pan mae'r Cyngor yn torri darnau o wair ar gyfer amwynder yn llai rheolaidd er mwyn hyrwyddo bioamrywiaeth, gosodir arwyddion i roi gwybod i'r cyhoedd am y ffordd hon o weithio.
Fodd bynnag, penderfynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen mai'r dull mwyaf cost-effeithiol o hyrwyddo ymylon toriad hwyr fyddai defnyddio gwefan y Cyngor.

Mae'r Adain Gadwraeth yn dosbarthu canllawiau i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned mwy ar reoli'r tir a reolant a bioamrywiaeth (Atodiad E).

2.11 Pryderon y cyhoedd

Mae Arolygwyr Priffyrdd y Cyngor yn ymateb i ymholiadau'r cyhoedd ac yn trefnu gwaith yn ôl y galw. Mae'r graff isod yn dangos cynnydd yn nifer yr ymholiadau gan y cyhoedd, gan gynnwys cefnogaeth i dorri ac yn ei erbyn.



Mae ymholiadau ynghylch perthi yn cael eu trafod fel arfer gyda'r perchennog tir cyfagos a fydd gan amlaf yn berchen ar y berth ac yn gyfrifol amdani. Mewn sefyllfaoedd pan na ellir dod o hyd i'r perchennog tir, efallai y bydd rhaid i'r Cyngor Sir dorri'r perthi am resymau diogelwch gor-redol.

Mae'r graff yn dangos fod y rhan fwyaf o bryderon y cyhoedd yn ymwneud â changhennau bargodol, ond mae gan y Cyngor Sir, sef yr Awdurdod Priffyrdd, rymoedd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i gyflwyno rhybudd i'r perchennog tir cyfagos drefnu fod llystyfiant bargodol yn cael ei dorri'n ôl. Ceisir osgoi'r cam cyfreithiol hwn lle bynnag y bo modd er mwyn osgoi costau cyfreithiol ac i gadw perthnasoedd gwaith da gyda pherchnogion tir.

Yn y lle cyntaf ac o dan amgylchiadau arferol byddai'r Arolygydd Priffyrdd ar gyfer yr ardal yn ysgrifennu at y perchennog tir yn gofyn iddynt dorri'r llystyfiant yn ôl o fewn 14 diwrnod. Os nad yw hynny'n llwyddo dilynir y llwybr ffurfiol sy'n golygu y gall yr Awdurdod Priffyrdd wneud y gwaith angenrheidiol a hawlio ein costau yn ôl.

3.0 Casgliadau

Yn dilyn yr adolygiad, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn hyderus fod y Cyngor yn gwneud gwaith trylwyr ac effeithiol o sicrhau bod ein priffyrdd yn cael eu cadw'n ddiogel ar gyfer y sawl sy'n eu defnyddio.

Mae'r Grŵp yn gwerthfawrogi fod rhaid ceisio cydbwyso'r manteision a geir trwy ddatblygu a chynnal rhwydwaith priffyrdd diogel ac effeithlon gyda'r manteision a ddaw o gynnal a chryfhau amgylchedd a threftadaeth naturiol a chynaliadwy.

Fodd bynnag, gellid dweud fod angen inni gydnabod a bod yn fwy ymwybodol o arwyddocâd y camau a gymerwn yn awr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a bod angen inni roi ystyriaeth i hynny wrth baratoi polisïau cynllunio a datblygu i'r dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos fod y cyhoedd yn credu mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am bob perth ar ymyl y ffordd, ac efallai mai dyna'r prif reswm pam mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymholiadau gan y cyhoedd o flwyddyn i flwyddyn dros y 3 blynedd diwethaf. Er mwyn lliniaru rhai o'r materion a wynebwyd gan y Cyngor a'r Contractiwr, mae'r Grŵp yn awgrymu:

- Fod rhesymwaith amlwg yn cynnal y drefn bresennol ar gyfer cynnal a chadw ymylon priffyrdd gwledig ond bod angen mwy o hyblygrwydd er mwyn cryfhau'r amgylchedd er mwyn bioamrywiaeth.

- Ceir camsyniadau cyffredin ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau am berthi, ymylon, ffosydd a sianeli y mae angen rhagor o eglurder yn eu cylch, efallai trwy gyhoeddi llyfryn gwybodaeth.

- Dylid ymchwilio cyfleoedd i annog ffermwyr a chontractwyr lleol i dendro am waith contract.

- Byddai mwy o arweiniad a chefnogaeth i ffermwyr a chontractwyr lleol gynnig am waith yn fuddiol i'r economi leol a byddai'n annog mwy o gysondeb yn y gwaith torri ar hyd a lled y Sir.

- Dylid ystyried cynnwys mwy o hyblygrwydd yn y trefniadau cynnal a chadw ymylon er mwyn gallu torri ffyrdd dosbarthiadau is ynghynt mewn sefyllfaoedd lle na fyddai hynny'n effeithio ar ddiogelwch ffyrdd dosbarthiadau uwch.

- Dylid edrych eto ar gyfleoedd i gydweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned, yn enwedig felly o ran ymylon priffyrdd trefol a thorri gwair ar gyfer amwynder.

- Er bod sbwriel yn parhau'n her, gallai'r Cyngor ddanfon neges glir y dylai gyrwyr fynd â'u sbwriel gartref.

Mae'r rhaglen cynnal a chadw ymylon priffyrdd, fel sawl agwedd arall ar waith y Cyngor, o dan gryn bwysau ariannol, ac mae'n rhaid cydbwyso hyn gyda'r angen i sicrhau diogelwch y cyhoedd wrth iddynt deithio a'n cyfrifoldebau amgylcheddol.

Yn dilyn y wybodaeth gan Gontractwyr, mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd cynnal a chryfhau cyfathrebu da a chysylltiadau cadarn rhwng y timau priffyrdd ardal a chontractwyr.

Cadarnhaodd y Grŵp fod yr adolygiad wedi canfod angen pendant i gynyddu gwybodaeth y cyhoedd o ran rheoli a chynnal a chadw ymylon, ac er mwyn bod yn gyson â Dyletswydd Bioamrywiaeth a.6 a roddwyd i Awdurdodau Lleol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, y dylid cynnwys gwybodaeth am fioamrywiaeth a chadwraeth a ymylon toriad hwyr. Er mwyn gallu gwneud hynny roedd y Grŵp yn teimlo ei bod yn bwysig gwella trefniadau'r Cyngor Sir ar gyfer cyflwyno gwybodaeth i Gynghorau Cymuned a'r cyhoedd.

Er bod y Grŵp yn croesawu'r ffaith y dosbarthwyd gwybodaeth a chanllawiau fel y gwelir yn Atodiad E i'r Cynghorau Tref a Chymuned mwy, roedd y Grŵp yn teimlo'n gryf y byddai pob Cyngor Cymuned yn elwa o dderbyn y wybodaeth hon.

Mae'r Grŵp yn cydnabod yr heriau o gydbwyso ymrwymiadau i gynnal diogelwch ffordd a hyrwyddo nodau cadwraeth o fewn cyllideb gyfyngedig, a bu'n edrych ar enghreifftiau o arfer presennol yn ardaloedd awdurdodau eraill.

4.0 Argymhellion

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ymchwilio'r rhaglen gynnal a chadw bresennol ar gyfer ymylon priffyrdd ac o'r herwydd mae'n cynnig y dylai'r Bwrdd Gweithredol gymeradwyo'r argymhellion canlynol:-

Argymhelliad Un

Y dylai Cyfarwyddiaeth Amgylchedd y Cyngor Sir barhau'n gyffredinol â'i darpariaeth bresennol ar gyfer cynnal a chadw ymylon priffyrdd ond y dylai ystyried defnyddio mwy o hyblygrwydd er mwyn:

a) cryfhau'r amgylchedd ymhellach er mwyn bioamrywiaeth, megis trwy doriadau hwyr neu bob yn ail flwyddyn mewn rhai ardaloedd, neu ddulliau rheoli priodol eraill;

b) ystyried torri is-ffyrdd yn gynnar pan na fyddai hynny'n effeithio ar ddiogelwch prif ffyrdd.

Argymhelliad Dau

Y dylai Cyfarwyddiaeth Amgylchedd y Cyngor Sir wella dealltwriaeth y cyhoedd o bwysigrwydd ymylon priffyrdd fel ardaloedd i ofalu amdanynt, eu cynnal a chadw ac ar gyfer cynefinoedd trwy:

a) ddarparu canllaw Cyngor Sir Caerfyrddin i amlygu rolau a chyfrifoldebau'r awdurdod priffyrdd a pherchnogion tir cyfagos.

b) rhaglennu ymgyrchoedd wedi'u targedu i annog pobl i beidio gollwng sbwriel ar ymylon a hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o ymylon priffyrdd a pherthi fel cynefinoedd naturiol gwerthfawr.

c) cynnwys gwybodaeth glir ar wefan y Cyngor ynghylch cadwraeth a rheolaeth ymylon ffyrdd.

Argymhelliad Tri

Y dylai'r Cyngor Sir geisio diogelu'r gyllideb cynnal a chadw priffyrdd gymaint ag sy'n bosib i sicrhau diogelwch y cyhoedd wrth iddynt deithio, lleihau cyfrifoldebau i'r dyfodol a diogelu cynefinoedd allweddol.

Argymhelliad Pedwar

Y dylai Cyfarwyddiaeth Amgylchedd y Cyngor Sir hyrwyddo cyfleoedd i annog ffermwyr/contractwyr lleol i dendro am waith ac ymgysylltu â chynigwyr posib i esbonio'r broses dendro.

Argymhelliad Pump

Y dylai Cyfarwyddiaeth Amgylchedd y Cyngor Sir gydweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i hyrwyddo rôl fwy rhagweithiol yn rheoli a gofalu am ymylon, perthi ac ardaloedd wedi'u tirlunio, yn yr un modd mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Er mwyn monitro'r cynnydd ar yr argymhellion, caiff cynllun gweithredu ei lunio a'i reoli trwy'r System Monitro Gwybodaeth Perfformiad fewnol. Caiff adroddiad cynnydd ei fonitro gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd.

Bydd deilliannau'r argymhellion yn cael eu hadrodd hefyd i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor o fewn Adroddiad Monitro Perfformiad y Strategaeth Gorfforaethol.

5.0 Llyfryddiaeth / Cyfeiriadau

Cyfeiriad	**Dolen**
Plantlife, The Good Verge Guide, Mehefin 2016. Tudalen 4.	http://www.plantlife.org.uk/application/files/4614/8232/2916/Road_verge_guide_17_6.pdf
Code of Practice for Highway Maintenance Management Well maintained Highways, R15.8 Nature Conservation and Biodiversity. Tudalen 248	http://www.ukroadsliaisongroup.org/en/utilities/document-summary.cfm?docid=C7214A5B-66E1-4994-AA7FBAC360DC5CC7
Cynllun Gweithredu Peillwyr Llywodraeth Cymru (2013)	https://www.biodiversitywales.org.uk/Wales-Action-Plan-for-Pollinators
Deddf Diogelu yr Amgylchedd 1990	http://law.gov.wales/environment/waste/environmental-protection-act-1990?lang=en#/environment/waste/environmental-protection-act-1990?tab=overview&lang=en
Amcanion Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin	http://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-democracy/consultation-performance/well-being-objectives-2017-18/#.Ws4iMuaosjY
Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor Sir 2015-2020	http://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-democracy/strategies-and-plans/corporate-strategy/

(Ctrl+Click i ddilyn yr hyperddolenni a darllen y dogfennau)

6.0 Atodiadau

Atodiad A – Cyfarfodydd a phresenoldeb y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Atodiad B - Map o Rawdau Gangiau Sirol Cyngor Sir Caerfyrddin

Atodiad C – Canllawiau Rheoli Ymylon Ffyrdd er Diogelwch ac er budd Bioamrywiaeth ar gyfer Contractwyr

Atodiad D – Taflen – Perchnogion Tir Cyfagos a'r Briffordd Gyhoeddus

Atodiad E – Canllawiau Amgylcheddol i Gynghorau Cymuned wrth Reoli eich Tir